## Ffordd newydd o weithio:

# Lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae rhai plant a phobl ifanc yn mewn gofal ac yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.**

**Gallant fod mewn gofal am lawer o wahanol resymau gan gynnwys eu cadw'n ddiogel.**

**Mae llawer o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal hefyd wedi profi niwed emosiynol, trawma a materion eraill.**

**Mae llawer ohonyn nhw'n goresgyn yr heriau hyn ac yn cyrraedd eu nodau. Mae eraill yn cael eu hunain yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.**

**Mae'r penderfyniadau mae pobl yn eu gwneud pan fydd hyn yn digwydd, a'r gefnogaeth maen nhw'n ei chael, yn newid eu dyfodol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid i ysgrifennu **Protocol Cymru Gyfan ar atal a lleihau troseddoli plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.**

**Mae hwn yn fframwaith newydd.**

Mae'n nodi'r ffyrdd gorau o weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys:

- **bod yn ymwybodol o drawma a materion eraill**
- **bod yn ymwybodol o fregusrwydd a chamfanteisio troseddol**
- **bod yn ymwybodol o hawliau plant.**



**Trwy ddilyn y fframwaith hwn a chydweithio gallwn helpu plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael dyfodol gwell!**

Sganiwch i gael gwybod mwy:
Protocol Cymru Gyfan